# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ARAN:** Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

**SWYDD:** Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd

**GRADD Y SWYDD:** GR07

**YN ATEBOL I:** Rheolwr Ardal Ymyrryd yn Gynnar

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Gweithio fel rhan o Dîm Ardal Ymyrryd yn Gynnar i gynorthwyo amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol cysylltu â darparwyr gwasanaethau eraill yn y Canolfannau Ardal Ymyrryd yn Gynnar yn Ardaloedd Gogledd, Dwyrain a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, a chyda'r Tîm Canolog. Bydd y rôl yn cynnwys defnyddio systemau gweithredol i nodi anghenion drwy atgyfeiriad gan y Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF), Tîm o Amgylch y Teulu, olrhain a chynnydd i ddarparu dull gweithio integredig er mwyn gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd Gweithwyr Cymorth Teulu yn gweithredu fel gweithwyr allweddol ac yn darparu cymorth i deuluoedd ag anghenion heb eu diwallu i atal neu leihau'r risg o anghenion cynyddol.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Darparu cymorth a chyngor uniongyrchol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, cynorthwyo wrth gefnogi rhaglenni a ddyfeisir yn yr amgylchedd cymunedol.

- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau, plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn ffordd gydgysylltiedig a di-dor wrth gyflawni cynlluniau unigol a chymorth y cytunwyd arnynt i deuluoedd er mwyn diwallu anghenion.

- Gweithio fel rhan o ganolfannau cymunedol a thimau amlasiantaethol er mwyn galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gael gafael ar wasanaethau sy'n berthnasol i anghenion.

- Cyfrannu at ddatblygiadau mewn gwaith amlasiantaethol gyda sefydliadau partner, gan gyfarfod yn rheolaidd â'r tîm gweithio integredig.

- Cynorthwyo a chyfranogi wrth werthuso Gweithio Integredig, y Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd, Tîm o Amgylch y Teulu, a chyfrannu at fonitro,

cynllunio ac adolygu proses, cynnal cofnodion cywir o weithgarwch drwy gronfa ddata electronig.

- Bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau amddiffyn plant a chydymffurfio â hwy ar bob adeg, gan gynnwys cynnal gofynion hyfforddiant statudol a gorfodol a chydymffurfio â'r rhain.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai.  Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

## GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • NVQ lefel 3 mewn pwnc perthnasol neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad.<br>• Cymhwyster mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd (neu'n gweithio tuag at hyn). | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o gynorthwyo teuluoedd ag anghenion ychwanegol a/neu gymhleth<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd amlasiantaethol<br>• Ymwybyddiaeth o bolisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data a chydymffurfio â hyn.<br>• Gwybodaeth am anghenion teuluoedd a phlant sy’n agored i niwed.<br>• Ymwybyddiaeth o bolisïau a gweithdrefnau pobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr, cymunedau a rhwydweithiau eraill<br>• Bydd sgiliau rhyngbersonol ardderchog yn ofynnol, gyda'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â phlant, pobl ifanc a theuluoedd<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gan roi tystiolaeth o sgiliau cryf yn ysgrifenedig ac ar lafar<br>• Gallu dangos sgiliau trefnu da<br>• Sgiliau TGCh da gyda'r gallu i ddefnyddio rhaglenni sylfaenol i alluogi cadw cofnodion a chyflwyno adroddiadau yn effeithiol<br>• Ymgymryd â hyfforddiant priodol i gyfrannu at ddatblygu proffesiynol a sgiliau.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol<br>• Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau o fewn amgylcheddau a disgyblaethau proffesiynol gwahanol<br>• Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm ac yn ôl eich menter eich hun | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Dylai'r ymgeisydd feddu ar drwydded yrru ddilys gyda mynediad i gar<br><br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | |